

Clefydau sy'n Effeithio ar Nodwyddau Coed Nadolig

TAFLEN GWYBODAETH

Mae prynwyr bob amser yn chwilio am goed Nadolig sydd â changhennau unffurf gyda thrwch o nodwyddau ar gyfer eu harddangosfeydd. Mae effeithiau clefydau dail yn para ar draws sawl tymor (y gorffennol a'r presennol), gyda'r symptomau yn dechrau gyda newidiadau lliw a necrosis cyn y collir y pinnau'n llwyr gan adael canghennau noeth. Er y gall sawl ffactor arwain at ollwng nodwyddau, mae sawl clefyd dail a all fod yn achos sylweddol o hyn os na chaiff ei reoli. Ceir crynodeb o'r clefydau dail cyffredin a'r ffyrdd o'u rheoli isod. Gall newid lliw neu gollu nodwyddau, hyd yn oed ar ychydig o ganghennau, wneud coeden yn amhosibl i'w gwerthu a chynyddu costau llafur a rheoli. Rhaid adnabod clefyd yn gyflym a'i reoli'n briodol er mwyn atal risgiau i'r blanhigfa ehangach.

Clefyd Colli Nodwyddau Rhizosphaera

Mae clefyd colli nodwyddau Rhizosphaera (Rhizosphaera needle cast; RNC) yn cael ei achosi gan y ffwng *Rhizosphaera kalkhoffii* a gall heintio ystod o rywogaethau gan gynnwys coed sbriws glas, sbriws gwyn, sbriws Norwy, a ffynidwydd Nordmann. Mae'r clefyd yn gymharol newydd i'r DU, a daeth yn broblem am y tro cyntaf yn 2017. Er mai dim ond mewn ardaloedd gwlypach yng ngorllewin Lloegr a Chymru arferai fod yn broblem, y mae bellach wedi'i weld mewn planhigfeydd ar draws y DU. Y symptomau cychwynnol yw'r nodwyddau hŷn yn troi'n frown euraidd, ac yna'n borffor dros yr haf. Bydd y nodwyddau'n dechrau edrych yn frown o fewn 8–15 mis o gael eu heintio, a gall symptomau fod yn anghyson ar draws y goeden – a gall ffynidwydd Nordmann ollwng ei nodwyddau tra byddant dal yn wyrdd. Gall nodwyddau ddechrau disgyn yn y flwyddyn yr heintiwyd y goeden, ym misoedd y gaeaf cyn eu cynhaeafu, neu gallant bara'r gaeaf a disgyn y tymor canlynol. Bydd nodwyddau'n disgyn oddi ar y canghennau isaf mewnol i ddechrau, cyn lledaenu trwy'r canopi. Mae coed sydd dan straen yn debygol o ddatblygu symptomau'n gynt.

Gellir cadarnhau heintiad RNC trwy archwilio'r nodwyddau a ollyngwyd yn ddiweddar gan ddefnyddio lens llaw 10x: bydd rhesi o ddotiau duon bach rheolaidd >0.1mm i'w gweld ar ochr isaf y nodwydd. Mae'r nodwyddau sy'n blaguro yn cael eu heintio yn y gwanwyn neu ddechrau'r haf, pan fo'r tywydd yn glòs a'r tymheredd oddeutu 20–25°C. Bydd sborau yn lledaenu o'r hen nodwyddau i'r canopi wrth i law dasgu arnynt. Fodd bynnag, i heintiad newydd ddigwydd, bydd angen rhywfaint o leithder arwynebol o fewn y canopi. Bydd y clefyd wedyn yn datblygu dros y tymor.



Symptomau Rhizosphaera ar nodwyddau a heintiwyd yn y tymor blaenorol.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswilt
FFERMIO



Rheoli RNC â Chemegau

Er nad yw ffwngleiddiaid copr a chlorothalonil yn cael eu caniatáu bellach, mae ffyrdd eraill o reoli â chemegau. Mae Dithane 945 (mancozeb) yn dal i gael ei ganiatáu (EAMU 2652/15), ac mae Amistar (azoxystrobin) hefyd ar gael o dan EAMU (3388/18). Fodd bynnag, gall fod yn anodd gorchuddio'r coed yn drylwyr (yn enwedig yn gynnar yn y tymor pan fydd nodwyddau newydd yn tyfu). Argymhellir hefyd i goed gael eu chwistrellu cyn iddi fwrw glaw mewn cyfnodau o risg, ond gall hyn fod yn anodd ei ragweld.

Rheoli RNC yn Ffermwrol

Gellir rheoli RNC gan ddefnyddio ystod o reolaethau ffermwrol. Ni ddylid sefydlu planhigfeydd yn agos i gonwydd eraill (gan gynnwys wrth dyfu planhigion ifanc). Gan fod angen lleithder arwynebol cyn y gall heintiad ddigwydd, gall mesurau sy'n hyrwyddo cylchrediad aer a sychu cyflym leihau'r risg o glefyd. Gall cael mwy o fwllch rhwng coed, tocio canghennau is, a brigdorri er mwyn lleihau dwysedd y canopi wneud i'r coed sychu'n gynt. Gall rheoli prysgwydd a chwyn o amgylch coed hefyd wella symudiad aer er mwyn lleihau lleithder arwynebol.



Coed ifanc wedi'u plannu mewn ffordd sy'n gwella'r llif aer.

Edrychwch ar stoc newydd i weld a oes symptomau, ac archwiliwch eich planhigfeydd yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn rhag i chi weld arwyddion cynnar o haint. Os gwelir symptomau, dylech docio'r canghennau sydd wedi'u heintio gan ddefnyddio secateurs wedi'u sterilio mewn alcohol 70%. Dylid torri canghennau sydd wedi'u heintio (a choed cyfan, os yw'r haint yn eang) er mwyn lleihau nifer y sborau (er y bydd rhywfaint yn aros yn y nodwyddau sydd wedi disgyn).

Necrosis Nodwyddau'r Tymor Presennol

Mae necrosis nodwyddau'r tymor presennol (CSNN) yn anhwylder dail difrifol sydd wedi effeithio ar Ffynidwydd Nordmann yn Ewrop a Gogledd America dros y 20–30 mlynedd diwethaf, a chaiff ei achosi gan *Sydowia polyspora*. Gall symptomau ymddangos ar ddail y tymor presennol rhwng Mai a Rhagfyr, gyda nodwyddau'n disgyn erbyn diwedd tymor yr Hydref, er y gall rai bara tan y flwyddyn ganlynol. Bydd archwiliad manwl o'r nodwyddau sydd wedi'u heintio yn dangos bod eu blaenau'n necrotig ac yn frown, gyda modrwy nodweddiadol o frown tywyll rhwng y meinwe necrotig a'r meinwe gwyrdd byw ymhellach i lawr. Gall ychydig o nodwyddau neu gangen gyfan droi'n frown a cholli ei dail, ond fel arfer bydd CSNN yn effeithio ar ganol y goeden (yn hytrach na'r gwaelod, fel y gwna Rhizosphaera).



Symptomau CSNN

Bydd archwiliad gyda lens llaw 10x yn dangos cyrff sborau du o wahanol feintiau ar ochr isaf y nodwydd, ac ni fydd eu patrwm mor rheolaidd â'r hyn a geir mewn heintiad RNC. Gall y dechrau fod yn amrywiol, fel arfer gan effeithio ar oddeutu



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO



10% o goed ar wasgar trwy'r blanhigfa. Mewn heintiadau difrifol, gall hyd at 40% o goed fod yn amhosibl i'w gwerthu o ganlyniad i nodwyddau'n disgyn gan adael canghennau noeth (er y gall rhai coed beidio â dangos unrhyw symptomau).

Caiff CSNN yn ei ledaenu gan law yn tasgu neu trwy gyswllt, a gall dod a phlanhigion ifanc heb symptomau i'r blanhigfa gyflwyno'r haint hefyd. Mae heintiadau'n fwy tebygol pan fo lleithder yn uchel a phan fo lleithder arwynebol, ac mae nodwyddau ifanc meddal yn fwy tebygol o gael ei heintio – yn enwedig gan y bydd dŵr yn cronni yn y blagur cyn iddo agor. Gall stormydd yr haf fod yn arbennig o broblemus gan fod tywydd gwlyb ar ôl cyfnod o straen yn annog heintiadau. Mae coed yn y DU wedi dioddef o fandiau clorotig ar egin newydd 3–14 diwrnod ar ôl stormydd mell t a tharanau a haul crasboeth ym mis Mai. Gall y straen a achosir gan docio boncyffion oddi ar waelod coed hefyd sbarduno symptomau mewn planhigion nad oedd yn dangos haint, neu gynyddu eu sensitifrwydd i haint.

Opsiynau Rheoli ar gyfer CSNN

Mae gwahardd ffwngleiddiaid copr a chlorothalonil wedi cyfyngu'r opsiynau o ran rheoli CSNN, er bod Amistar (azoxystrobin) ar gael o dan EAMU (3388/18). Gellir cynllunio'r defnydd ohono i gyd-fynd â phryd fydd nodwyddau'n ymddangos, er bod perygl o'r orddefnyddio os caiff hyn ei wneud mewn tywydd sych pan fydd y risg o haint yn isel. Gall rheoli ffermwrol fod yn effeithiol iawn, yn enwedig trwy leihau ffynonellau haint ac osgoi amodau lle gall haint gydio gan ddefnyddio'r un dulliau ag a drafodwyd uchod ar gyfer RNC. Mae'n bwysig archwilio planhigion ifanc er mwyn osgoi rhag halogiad. Gall tocio a rheoli chwyn wella'r llif aer trwy'r canopi, gan helpu i sychu'r dail ac atal lleithder. Mae potensial hefyd i gael mathau o goed sy'n llai tebygol o ddioddef o'r haint.



Necrosis CSNN



Clefyd colli nodwyddau CSNN



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO



GARDDWRIAETH
HORTICULTURE

Rhwd Puccinia

Er bod rhwd Puccinia wedi bod yn fwy cyffredin ar *Abies alba*, mae wedi dechrau heintio ffynidwydd Nordmann hefyd gan achosi difrod sylweddol. Ar ôl treulio'r gaeaf ar chwyn, bydd Puccinia yn heintio nodwyddau gan greu bandiau melyn ddiwedd y gwanwyn neu ddechrau'r haf. O edrych yn nes, fe welir gyrff sborau melyn golau sy'n ymwithio allan o stomata ar arwynebau is y nodwyddau. Wrth i'r haint ddatblygu, bydd y nodwyddau'n crebachu ac yn disgyn ddiwedd yr haf. Mae hyn yn arwain at rannau helaeth o ganghennau'r tymor presennol yn colli eu dail yn llwyr. Mae'r clefyd hwn yn cael ei achosi gan y ffwng *Pucciniastrum epilobii* sy'n heintio gwahanol rywogaethau ar wahanol gamau o'i gylch bywyd. Mae'n gorffen ei gylch bywyd ar yr Helyglys Hardd (*Chamerion angustifolium*), a elwir hefyd yn chwyn tân, neu ar rywogaethau Ffiwsia. Gall y sborau a chwythir oddi ar Helyglys deithio'n bell a lledaenu'n gyflym trwy blanhigfeydd cyfan. Yn aml, gwelir bod cysylltiad rhwng glawiad sylweddol cyntaf Mai a lefelau uchel o sborau'n cael eu rhyddhau oddi ar yr Helyglys. Gall hyn arwain at heintio nodwyddau newydd (yn enwedig y rhai sydd wrthi'n blaguro) pan fo'r cen yn disgyn oddi ar y blagur a'r nodwyddau'n dechrau agor. Mae angen lleithder er mwyn iddo gydio, felly gall nodwyddau sy'n ymddangos yn diweddarach osgoi'r haint.



Rhwd Puccinia

Rheoli Puccinia

Gellir defnyddio Amistar (azoxystrobin) i reoli rhwd Puccinia o dan EAMU (3388/18), ac mae Signum (boscalid + pyraclostrobin) ar gael fel amddiffynnydd (EAMU 2141/12). Fodd bynnag, gall rheoli cemegol fod yn broblem oherwydd anawsterau wrth chwistrellu – yn enwedig pan fydd nodwyddau newydd yn ymddangos. Dylid ystyried ei ddefnyddio ym mis Mai, cyn y cyfnodau pan fo sborau'n debygol o gael eu rhyddhau, ac ar ôl iddi lawio. Mae'n debygol mai'r ffordd mwyaf effeithiol o'i reoli yw trwy ddulliau ffermwrol – yn enwedig trwy reoli Helyglys yn y blanhigfa, gan gynnwys ar lwybrau, mewn gwrychoedd a choetiroedd cyfagos. Yn debyg i RCN a CSNN, mae angen lleithder arwynebol er mwyn heintio, felly bydd gwella llif aer er mwyn i goed sychu'n gynt yn lleihau'r nifer o heintiadau. Fodd bynnag, yn wahanol i RCN a CSNN, ni all nodwyddau sydd wedi disgyn heintio'r un goeden neu rywogaethau *Abies* eraill (rhaid iddo heintio Helyglys am yn ail â'r coed). Felly, nid yw mesurau glanweithdra mor bwysig o'i gymharu. Mae awgrym y gall dewis mathau o ffynidwydd Nordmann sydd â nodwyddau sy'n blaguro'n hwyrach hefyd leihau pwysau'r clefyd.



Helyglys Hardd



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO



Crynodeb

Gall ystod o glefydau dail tebyg, ond fymryn yn wahanol, effeithio ar blanhigfeydd coed Nadolig. Gall rheoli'r cnwd a'r ardal dyfu fod yn ddefnyddiol wrth reoli risg clefyd. Er bod opsiynau rheoli cemegol ar gael, gwell yw defnyddio'r rhain pan fo'r amodau yn ffafriol i'r haint. Bydd ymwybyddiaeth o'r peryglon, gan gynnwys y cyfnod sydd rhwng yr heintiad cychwynol a'r symptomau cyntaf, yn eich helpu i adnabod bygythiadau posibl i'ch planhigfa, ac mae crynodeb o hyn isod:

		I Infection	S Symptoms																											
		Disease infection & Symptoms																												
		Jan	Feb	Mar	April	May	June	Jul	Aug	Sep	Oct	Nov	Dec	Jan	Feb	Apr	May	Jun	Jul	Aug	Sep	Oct	Nov	Dec	Jan	Feb	Mar	May		
Disease :		1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14	15	16	17	18	19	20	21	22	23	24	25	26	27		
Rust						I	I																							
Rust						S	S	S	S	S																				
CSNN						I	I																							
CSNN						S	S	S	S	S	S	S	S	S																
Rhizosphaera						I	I	I	I	I																				
Rhizosphaera													S	S	S	S	S	S	S	S	S	S	S	S	S	S	S	S		

Ymwadiad

Ymdrechir yn deg i sicrhau cywirdeb y wybodaeth a'r argymhellion a gynigir yn y nodiadau hyn. Bob tro y byddwch yn defnyddio cemegau diogelu cnydau, dylech wneud hynny yn unol â'r argymhellion sydd wedi'u nodi ar y label, a dylech ddarllen yr argymhellion hynny cyn chwistrellu. Efallai na fydd rhai o'r plaleiddiaid a grybwyllir yn y nodiadau hyn yn cael eu cefnogi gan argymhellion ar labeli ar gyfer eu defnyddio ar Goed Nadolig, ond eu bod yn cael eu caniatáu drwy'r Estyniad o Ganiatâd ar gyfer Mân Ddefnydd (EAMU) yn y DU o dan 'The Revised Long Term Arrangements For Extension Of Use (2002)'. Mae'r cyfeiriadau at gymeradwyaethau ar label ac EAMUs ar gyfer defnyddio plaladdwyr ar Goed Nadolig yn gywir ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Gall y rhain gael eu newid a gallai cymeradwyaeth gael ei thynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Cyfrifoldeb y tyfwr yw gwirio cymeradwyaethau cyn defnyddio plaladdwyr Os oes unrhyw amheuaeth, dylai tyfwr ofyn am gyngor gan gynghorydd BASIS cymwysedig.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

